# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NEUADD Y PENTREF, BETWS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 4ydd o Orffennaf, 2022.**

**1. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS pawb i'r cyfarfod.

**2. YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr John EVANS; Hilda GIBBS; Glena HUMPHREY; D Gwyn JONES; Bryn JONES; Gethin OWEN; John D. ROBERTS; Goronwy R. WILLIAMS; a'r Cynghorwr Sir Ifor G WILLIAMS.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Hefin WILLIAMS.

**4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un.

**5. MUNUDAU**

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Fehefin, 2022. (Cynnig y Cynghorydd Goronwy R WILLIAMS ac eilwyd gan y Cynghorydd John EVANS)

**6. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**7. CYLLID**

a. Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod dod i ben 20fed Mai 2022. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cymunedol | = £11,329.61 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian i Mewn | = £0.00 |
| Arian Allan | = £6.20 (Costau Banc - DR) |
| | = £270.00 (JDH Services Ltd-Archwiliad Mewnol - 200136) |

| | |
|---|---|
| | = £775.49 (A Wheway-Digwyddiad y Jiwbili – 200137) |
| | = £523.54 (Cyflog y Clerc – SO) |
| | = £130.80 (Taliad i'r HMRC – SO) |
| Heb ei Cyflwyno | = £264.00 (Zurich Municipal Ins-Annual renewal - 200139 |
| Cyfrif Cymunedol | = £9,623.58 (Cludwyd Ymlaen) |
| Cyfrif Busnes | = £5,551.60 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian Allan | = £0.00 |
| Arian i Mewn | = £0.69 (Llog Banc) |
| Cyfrif Busnes | = £5,552.29 9 (Cludwyd Ymlaen) |
| Cyfanswm | = £15,175.87 |

Cytunodd pawb a'r adroddiad yma.

b. Ynglun a bancio ar-lein cytunodd yr aelodau i'r Clerc roi y trydydd cais i mewn gyda llythyr yn cwyno am brosesau cymleth a lluosogol y banc.

**8. GOHEBIAETH**

a. Ebost i'r Adran Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleustra yn gofyn am gael torri'r gor dyfiant a am gael blodau wedi ei plannu yn nhwbiau boda y ddau bentref. 'Roedd ateb wedi ei gael yn dweud fod hyn am gael ei wneud yn yr wythnos ganlynol. Angen gofyn i rhywun lleol i ddyfrio y blodau pan fyddant wedi ei planu.

b. Ateb wdi ei yrru i'r preswylydd ynglun a'r goeden oedd wedi ei phlannu ar ddiwrnod y Jiwbili yn dweud y byddai y goeden yn aros ble y planwyd hi.

c. Llythyr o ddiolch wedi ei yrru i Aloma Wheway a'i grwp am ddigwyddiad y Jiwbili yn Betws yn Rhos. 'Roedd adroddiad cyllid wedi ei gael am y gwariant tuag at y digwyddiad. Wedi talu allan a chael arian i mewn 'roedd £9.49 dros ben. Rhoddwyd hyn tuag at arian a gasglwyd ar wahan tuag at Yr Wcrain = £114.32.

d. Anfonwyd llythyr i Aneurin Bevan UHB i ofyn am arian tuag at defibriliwr iw roi yn ardal Dawn. Cafwyd ateb gyda'r ffurflenni iw llenwi. Y Clerc i wneud y cais. Mae angen edrych ar enwau pwy sydd ar gyfer y defibs sydd ganddom ni i wneud yn siwr fod rhywun yn edrych ar ei holau.

e. Ebost wedi ei dderbyn i roi gwybodaeth am Wythnos Natur Cymru o'r 2ail i'r 10fed o Orffennaf. Braidd yn hwyr i wneud dim erbyn hyn. Edrych i mewn i wneud rhywbeth fel llwybyr natur lleol yn y dyfodol agos. Y Clerc i edrych i mewn i'r grant sydd ar gael i blannu blodau a choed ffrwythhau ar ymylon y cae chwarae.

f. Neges wedi ei dderbyn drwy'r dudalen we am gyfwr y llwybrau cyhoeddus a'r camfaoedd yn yr ardal. Ateb wedi ei yrru yn diolch am y gwybodaeth ac yn gofyn am safleoedd penodol er mwyn ei dwyn i sylw y Cyngor Sir.

g. Llythyr wedi ei dderbyn yn gofyn am engreifftiau o ymateb i gynhesu byd-eang a newid hinsawdd. Teimlwyd fod hyn yn fwy perthnasol i ardaloedd diwydiannol. Y gwybodaeth iw gadw ar ffeil.

h. Llythyr gan Un Llais Cymru gyda gwybodaeth am grant Pwerchenogrwydd Cymunedol. Y Clerc i edrych i mewn.

i. Llythyr gan Adran Trwyddedu CSBC i ddweud yn swyddogol fod y cais am y digwyddiad gerddorol yn Coed Coch wedi ei dynnu yn ol.

j. Llythyr gan gwmni ynni Bute trwy 'Camlas' i ofyn os oeddem am gael cyfarfod gyda nhw ynglun a diweddariad ar ddatblygiadau Ffermydd Gwynt yn yr ardal. Angen hysbysu unrhyw gyfarfod er mwyn paratoi cwestiynnau penodol iw gofyn. ,

k. Hysbysiad gan CSBC ynglun a Gwaith ffordd a rheolaith traffig ar y B5381 am 350m yn ardal Chweffordd.

l. Gwybodaeth wedi ei gael am Llunio Dyfodol Cymru yn dweud y bydd mwy o wybodaeth yn dod yn y dyfodol agos.

m. Neges wedi ei dderbyn drwy dudalen we y Cyngor gan Glerc Cyngor Llanddulas a Rhyd y Foel yn gofyn am gyfarfod er mwyn cysidro gweithio gyda nhw ar ymrwymiad gymunedol terfynnau y Cynllun 'Place Plans'. Y Clerk i gael cyfarfod yn y dyfodol agos.

**9. GRANTIAU**

a. Dim ceisiadau newydd wedi ei derbyn. Hysbysebiad wedi ei roi ar fyrddau hysbysu Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos i wahodd caeisiadau am grantiau gan y Cyngor Cymuned.

b. Mae grantiau canlynol ar gael i'r Cyngor a bydd y Clerc yn edrych pa rai sydd yn gymwys i geisio amdanynt:

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Datblygu Cymuned Leol

Cronfa Perchenogaeth Cymuned

Cronfa Cymunedol

**10. CYNLLUNIO**

a. 0/49368. Safle: Aelwyd Uchaf Cil Llidart Road Betws Yn Rhos Conwy LL22 8AG – Fe oedd gwrthwynebiad i'r cynllun yma oherwydd ardrawiad gweledol; ar ffordd/llwybr treftadaeth; maint a mesur yr adeiladau wrth gysidro bodolaeth defnydd amaethyddol y tir. Disgwylir penderfyniad gan yr Adran Gynllunio. Mae'r cais yma yn awr wedi ei ganiatau gan yr Adran Gynllunio.

b. Cyfeirnod: 0/49506 Cynllun: Cais llawn i leoli stablau at ddefnydd preifat yn unig, gosod llawr caled yn atodol i ddatblygiad a mynedfa newydd o'r briffordd. Safle: Tir gyferbyn a Ffordd y Mynydd Betws-yn-Rhos Conwy Wales LL22 8FD. Fe oedd gwrthwynebiad i'r cynllun yma oherwydd diffyg gwybodaeth am ddefnydd hir dymor y cynllun. Disgwylir

penderfyniad gan yr Adran Gynllunio. Mae'r cais yma yn dal iw gysidro gan yr Adran Gynllunio.

c. 0/49771 Ty Newydd, Cilgwyn Road, Llanelian yn Rhos LL298YR; Y Cyngor angen lluniau o'r Gwaith sydd iw wneud. Mae'r cynnig yma wedi bod o'n blaenau o'r blaen a doedd dim gwrthwynebiad.
d. Adeiladwaith ar dir Ty'n y Coed, Llanelian a oedd ddim yn cydfynd a rheolau cynllunio. Mae arolygwr o'r Adran Gynllunio wedi bod i'r safle a wedi rhoi cyngor a fydd yn gorfodi newidiadau. Cawn weld unrhyw gais am gynllunio yn y dyfodol.

**11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Mae'r Clerc yn aros am ganlyniad yr Archwiliad Allanol (Archwiliad Cymru).

**12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

a. Cafwyd ateb gan y Cyngor Sir am y pryder o aros i'r gwaith ddechrau ar y cynnal a chadw ar Ffordd Llanelian. Y Cyngor yn dweud y caiff y gwaith iw wneud rhyw ben cyn dechrau 2023.
b. Mae y Cyngor Sir angen sylwadau lleoliaid penodol am unrhyw waith ffordd sydd angen sylw brys. Unrhyw wybodaeth o'r fath i gael ei yrru i'r Cyngor drwy'r Clerc er mwyn rhoi y gwaith ar restr blaenoriaeth.
c. Cwynion am or yrru ar y B5381 yn ardal Bryn Pin, Bryn y Maen. Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn rhoi camerau I arolwg cyflymndra ar y ffordd hon – Project Darwin.

**13. ATGYWEIRIO'R FFYNNON AR FFORDD ABERGELE, BETWS YN RHOS.**

Bydd cais yn cael ei wneud am grant i geisio rhoi cymorth i adnewyddu y ffynnon.

**14. CYFARPAR CHWARAEON I BLANT IAU AR Y CAE CHWARAE.**

Mae'r ail gais yn cael ei ddarparu a bydd y Cynghorydd Bryn Jones yn cyfarfod gyda aelodau grwpiau eraill y gymuned yn Betws yn Rhos i gael ei syniadau hwy ar y broject.

**15. FFOADURIAID O'R WCRAIN.**

Deallir for rhai ffoaduriaid wedi cyrraedd Bae Colwyn. Rydym yn disgwyl i rywfaint ohonynt gael ei cartrefu yn lleol. Y pryd hynny byddwn yn barod i edrych ar ffyrdd i roi cymorth ariannol ac ymarferol i rai fydd yn dod i ardal y Cyngor.

**16. CYFARPAR AR GYFER GWNEUD Y CYFARFODYDD YN RHITHIOL**

Er mwyn cynwysiedigaeth, mae angen edrych ar ffordd o alluogi aelodau o'r Cyngor a'r cyhoedd gymeryd rhan yn y cyfarfodydd yn rhithiol pe baent am unrhyw reswm yn methu bod yno mewn person. Penderfynwyd edrych ar wahanol gostau cael sgrin/monitor ar y wal yn y ddwy ganolfan sydd gyda camera wedi ei gynnwys oddifewn. Mae'r gwaith hyn yn parhau.

**17. GORDYFIANT AR LONYDD GWYRDD A LLWYBRAU LLEOL**

Mae archwyliad i faint ac ymhle oedd y lonydd a'r llwybrau hyn yn dal ar y gweill, a bydd dynesiad i'r Cyngor Sir yn cael ei wneud amdanynt i gyd. Mae angen atgoffa y Cyngor Sir am y gordyfiant yn y pentrefi ac yn benodol am Ffordd Abergele, Betws yn Rhos.

**18. ARWYDD FFORDD HEN FFASIWN AR GORNEL PLAS YN BETWS A CAPEL BACH SION**
Mae'r clerc wedi cael dyfyniadau ond maent o gwmpas £1,000 i ail wneud yr arwydd a felly yn rhy ddrud. Bydd ymholiadau yn cael ei gwneud gyda cwmni lleol i edrych os oes bosib gwneud arwydd tebyg

**19. FFERM WYNT ALLTRAETH AWEL Y MOR**
Mae'r Cyngor yn awr wedi ei cofrestru gyda Cwmni Awel y Mor fel cymdeithas sydd a diddordeb yn y broject er mwyn cael gwybodaeth reolaidd am y cynlluniau.

**20. YMGYRCH LEOL I REOLI FFERMYDD GWYNT**
Mae'r taflenni wedi cael ei dosbarthu i bawb yn yr ardal.

**21. LLWYBR NATUR**
Cynnig syniad i edrych ar y posibilrwydd o wneud llwybyr natur yn yr ardal gan ddefnyddio rhai o'r llwybrau cyhoeddus. Ychwanegu hwn at y rhestr o weithrediadau.

**22. NEWIDIADAU I SUSTEM GYNLLUNIO AYYB**
Mae angen edrych yn mwy manwl ar y cynllun 'levelling up' i weld beth fydd y canllawiau newydd a sut y bydd hyn yn effeithio ar Gynghorau Cymuned.

**23. GWAITH FFORDD / CAU'R FFORDD YN DOLWEN – BWRDD DWR**
Y Gwaith yma yn hanfodol felly does dim modd na phwrpas iw wrthwynebu.

**24. Y GADLAS**
Y Clerc i baratoi erthygl i'r Gadlas i gynwys gwybodaeth am gyfarfod ymwybyddiaeth gan Camlas ar ran ceisiadau i adeiladu ffermydd gwynt lleol.

**25. TREFNU NOSON O DDIOLCH I AELODAU A SWYDDOGION Y CYNGOR SYDD WEDI YMDDEOL YN DDIWEDDAR**
O achos salwch ymysg rhai o'r gwestion bydd y trefriadau yn cael ei gwneud mewn chydig wythnosau.

**26. UNRHYW FATER ARALL**
a. Angen rhoi gwybodaeth i'r Cyngor Sir am arwydd ffordd yn Dolwen sydd wedi ei orchuddio gyda gordyfiant.
b. Cwyn wedi ei gael am swn beiciau modur yn scramble ar
c. Cymeradwywyd y Cynghorydd John Evans am y Gwaith o blannu blodau o amgylch Mynwent Betws yn Rhos.
d. Roedd rhestr o weithrediadau wedi ei paratoi i'r Cyngor weithio arnynt dros y misoedd nesaf. Bydd rhain yn cael ei trafod yn y cyfarfod nesaf.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.30y.h.

CADEIRYDD……………………………………………………………DYDDIAD……………………………………….